| | | |
|---|---|---|
| **Cofnodion cyfarfod 13eg o Mawrth 2024 a gynhaliwyd yn y Ganolfan am 7 yn yr hwyr** | | |
| **PRESENNOL** | | |
| Llinos Pritchard (Cadeirydd) | Iola Owen | |
| Iwan Harding | Nia Jones (yn Rhithiol) | |
| Emlyn Baylis | Kim Jones | |
| Gwilym Evans | Helen Sharp | |
| Louise Price | | |

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU** | |
| | Agorwyd y cyfarfod yn ffurfiol gan y Cadeirydd Llinos Haf Pritchard gan groesawu'r aelodau i gyfarfod mis Chwefor. Ni dderbyniwyd ymddiheuriad. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Rhys ap Gwilym, Cynghorydd Kevin Jones, a'r Cynghorydd Trystan Thomas Daeth dau ymgais i law ar gyfer y sedd wag oedd ar y Cyngor. Rhoddwyd y ceisiadau i bleidlais gudd ac etholwyd Bethan Holding i'r sedd. Y Clerc i hysbysu'r ddau ymgeisydd o'r canlyniad. | **CLERC** |
| 1.1 | Ni chafwyd cyfranogiad gan y cyhoedd. | |
| 1.2 | Coed Fictoria - cafwyd gwybodaeth bod perchennog Coed Fictoria wedi derbyn rhybudd gan Cyfoeth naturiol Cymru i dorri'r coed oedd wedi eu heintio a'r Phytophthora ramorum. | |
| 1.3 | Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Datblygu Bro Peris/Y Wyddfa a threfnu cyfarfod gyda chynrychiolaeth oddi wrth fentrau Cymdeithasol Lleol Nid oedd y Cyngor wedi derbyn gwahoddiad i'r cyfarfod hwn ac felly nid wedi gallu anfon cynrychiolaeth. Mae cyfarfod arall wedi ei drefnu ond wedi ystyried y cais penderfynwyd nad fyddai'r Cyngor yn cymryd rhan oherwydd roedd cynlluniau ar y gweill i ystyried Menter i Lanberis yn unig. | **CLERC** |
| 1.4 | Canolfan Hwb Symudedd Llanberis Arfaethedig – cyflwynwyd cofnodion o'r cyfarfod arbennig hwn oddi wrth AECOM. Derbyniwyd hwy fel rhai cywir ond penderfynwyd nodi nad oedd y Cyngor am weld unrhyw ddatblygiad fyddai yn dadseilio ond yn ategu at y gweithredu cymunedol sydd yn digwydd ar hyn o bryd gyda'r Ganolfan. Dylai unrhyw ddatblygiad fod o fuddiant i'r gymuned | **CLERC** |
| 1.5 | Ardal Chware Coed Lan y Llyn – dywedodd y Clerc bod ymweliad safle rhwng y Cyngor Cymuned, Cyngor Gwynedd, National Grid a Morgan Sindal wedi bod yn dilyn derbyn adroddiad RoSPA wedi'r gwaith i'w roi yn ôl yn ei le. Roedd man weithrediadau angen a phenderfynwyd byddai y rhai amlwg yn cael eu gwneud tra byddai y mater o'r mulch yn cael eu wneud tua mis Medi os na fyddai yn gweithygu i fod yn peryglus. Roedd angen amser i'r tir setlo. | |
| **2.0** | **DATGAN DIDDORDEB** | |
| | Roedd sawl Cynghorydd gyda chysylltiad i'r cymdeithasau oedd wedi gwneud cais am gymorth ariannol. Nid oedd unrhyw fuddiant personol i'r cynghorwyr. | |
| **3.0** | **ADRODDIAD AR FATERION SIROL** | |
| 3.1 | Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig ar faterion sirol gan y Cynghorydd Kim Jones, gweler yr adroddiad yn atodiad 1. | |
| **4.0** | **CADARNHAU GWARIANT A CHYFLWYNO ADRODDIAD ARIANNOL** | |

| | | |
|---|---|---|
| 4.1 | Cyflwynwyd gwariant ac adroddiad ariannol mis Ionawr 2024 a'u derbyn. | |
| 4.2 | Ystyriwyd ceisiadau am gymorth ariannol a phenderfynwyd ar y canlynol: | **CLERC** |

| **CYMDEITHAS/MUDIAD** | **CAIS AM** | **DYFARNIAD** |
|---|---|---|
| Guiding Llanberis | 500 | 300 |
| Cor Dyffryn Peris | 350 | 300 |
| Grŵp Datblygu Llanberis | 500 | 300 |
| Eco'r Wyddfa | Dim swm | 300 |
| Clwb Peldroed Llanberis | Dim swm | 300 |
| Pentre' Taclus Llanberis | 480 | 300 |
| Eglwys Sant Peris | 3500 | 300 |
| Seindorf Arian Llanrug | 350 | 300 |
| Merched y Wawr Llanberis a Nant Peris | 250 | 300 |
| Y Festri | 500 | 300 |
| Pwyllgor Gyfeillio | Dim swm | 300 |
| | | |
| **CYFANSWM** | | **3300** |

| | | |
|---|---|---|
| **5.0** | **CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI** | |
| 5.1 | Cadarnhawyd cofnodion mis Ionawr 2023 . | |
| 5.2 | CCTV a chyfarfod Cyhoeddus - disgwyl cadarnhad dyddiad ar gyfer cyfarfod cyhoeddus. Disgwyl dyddiadau lle mae'r Rhingyll ar gael. | |
| 5.3 | Newid Safle Bin Sbwriel Cae Chwarae Lan Llyn - nid oes modd i Gyngor Gwynedd osod bin newydd ond mae gan y Cyngor Cymuned hawl i brynu'r bin a hefyd talu am wasanaeth cludo yn wythnosol. Penderfynwyd gofyn am amcan bris am y bin a'r gwasanaeth cludo. | **CLERC** |
| 5.4 | Cerflun Coffa'r Chwarelwyr - mae cyfarfod arall wedi ei drefnu ar gyfer 29ain o Chwefror. Rhoddwyd eglurhad bod arian ffyniant bro ar gael i hyn ond bod amserlen o 12 mis wedi ei roi i'r prosiect. Bydd rhaid i'r cerflun fod yn ei le erbyn diwedd y flwyddyn. Mae angen cael lleoliad i'r cerflun. Roedd sawl lle wedi ei nodi ond yn anffodus nid oedd y cerflun yn gallu cael ei godi ar safle ymgyfnewidia bysiau na gardd gymunedol y feddygfa. Yr unig safle ar ôl oedd parc bach sydd yn cael ei gynnal gan y Cyngor Cymuned. Nid yw gweithredoedd ar gael i'r tir hwn ac ychwaith wedi ei gofrestru. Penderfynwyd symud ymlaen i gofrestru drwy ddull cyfreithiol. Y Clerc i'w neud trefniadau i ymweld â chyfreithiwr gyda'r Cadeirydd. | **CLERC** |
| 5.5 | Hysbysfwrdd y Fynwent - mae contractwr bellach wedi symud o'r fynwent ac am wneud gwaith adfer arno. Gobeithir bydd yn ei leoliad newydd yn fuan. | |

| | | |
|---|---|---|
| **6.0** | **PRIFFYRDD A LLWYBRAU CYHOEDDUS** | |
| 6.1 | Dim gwaith wedi ei wneud ar y palmant ger y Llysoedd ar y Stryd Fawr. Penderfynwyd byddai'r Clerc yn anfon at Bennaeth Priffyrdd i ddatgan siom nad oes gwaith wedi ei wneud ar y safle hyd yma. | |
| 6.2 | Mae arwydd ffordd uniaith Saesneg wedi ei osod ar gyfer Gwesty'r Fictoria yn ddiweddar. Mae hyn yn groes i bolisi iaith Cyngor Gwynedd. Y Clerc i anfon at Brif Weithredwr Gwynedd yn datgan anniddigrwydd y Cyngor Cymuned o hyn. | |
| **7.0** | **Y FYNWENT** | |
| 7.1 | Cafwyd gwybodaeth oddi wrth Gyngor Gwynedd bod rheoliadau newydd ar gyfer ailgylchu yn dod i rym ar y 6ed o Ebrill 2024. Mae'r rheoliadau yma yn effeithio busnesau. Mae hyn yn golygu bod busnesau yn anorfod didoli gwastraff. Mae Cyngor Gwynedd wedi gofyn am eglurhad ar gyfer mynwentydd oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru os yw mynwentydd yn gorfod gwneud hyn. Ar hyn o bryd mae codi gwastraff o'r mynwentydd yn parhau heb ei ddidoli. Er hynny mae hyn yn costio yn flynyddol. Mae biniau sydd o fewn y fynwent yn cael eu defnyddio ar gyfer pob math o sbwriel ac o bryd i'w gilydd mae'r safle yn flêr gyda phobl yn peidio a defnyddio'r biniau a gosod sbwriel ar bwys y lleoliad biniau. Ystyriwyd y mater a phenderfynwyd byddai'r Cyngor yn symud i wneud i ffwrdd a'r biniau o'r Fynwent er mwyn ategu at ymdrechion Llywodraeth Cymru at ddod yn genedl ddiwastraff a lleihau allyriadau carbon. Y Clerc i weithredu ar gael arwyddion i'r safle ac i roi rhybudd ar y wefan. Bydd y Cyngor yn monitro'r sefyllfa dros y misoedd cyntaf. | **CLERC** |
| **8.0** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
| | C23/0537/15/LL<br>Lleoliad: 40 Glasgow Houses, Pete's Eats, Stryd Fawr, High Street, Llanberis, LL55 4EU<br>Bwriad: Newidiadau Arfaethedig i Fwyty ac Addasiadau i Lety Gwyliau ac Estyniad Dormer Arfaethedig<br>Sylwadau – er nad oedd gan y Cyngor wrthwynebiad mae angen sicrhau nad oedd y datblygiad yn mynd yn groes i reoli gor-dwristiaith. Hefyd er mai dim ond darluniau (Cynlluniau fel rhan o'r cais) roeddynt yn dangos pobl yn mwynhau bwyta ac yfed ar y droedffordd. Mae'r Cyngor yn bryderus os byddai adran eiddo Cyngor Gwynedd yn caniatáu hyn o dan drwydded byddai lled y droedffordd yn culhau ac o ganlyniad ni fyddai efnyddwyr yn gallu cerdded yn ddirwystr heb fynd i'r ffordd a ni fyddai hyn yn ddigogel oherwydd y traffig sydd ar y ffordd fawr a'r ffordd Stryd y Farchnad yn mynd at y Ffordd osgoi. | |
| **9.0** | **GWEITHGAREDDAU CYMUNEDOL Y NADOLIG** | |
| 9.1 | Campfa Awyr Agored - cafwyd cyfarfod safle gyda Swyddog o Gyngor Gwynedd i edrych beth fyddai yn bosib ar gyfer ariannu math prosiect. Fe ddywedwyd bydd angen ymgysylltu a'r cyhoedd i weld beth oedd y galw ac os oedd galw sut fath o offer oedd ei angen. Bydd y Swyddog yn mynd ati i wneud holiadur. Wedi hyn bydd yn bosib wedyn i edrych ar leoliad ger y Ganolfan a chynnal trafodaethau gyda Rheolwyr Parc Padarn. | |

| | | |
|---|---|---|
| **10.0** | **ADRODDIADAU CYRFF ALLANOL** | |
| 10.1 | Dim i'w adrodd. | |
| **Llofnod:** | | **Dyddiad:** |

ATODIAD 1

**Adroddiad Chwefror 2024**

- Tair cynllun cyfyngiadau parcio ar y gweill i'w trafod yn y Cyngor Cymuned, Ffordd Capel Coch, Lon yr Eglwys a Stryd Ceunant. (Cais gan Eric Baylis i gwtogi llinellau melyn Ffordd CC, angen trafod hyn yn ein cyfarfod plis) 2 gwrthwynebiad wedi dod i'r Cyngor yn barod ynglyn a'r cynllun. Wedi gofyn wrth Colin yrru ebost i'r adran draffig i gwyno am y peryglon yn y safle er mwyn cryfhau'r cynllun gan fod y Cyngor yn nodi nad oes unrhyw gwynion wedi dod i mewn gan wasanaethau brys/loriau ailgylchu a deliveries methu mynd heibio felly mae angen ceisio annog trigolion i ysgrifennu mewn.
- Wedi holi Andrew Gregrson o'r Cyngor os oes modd peintio 'bus stop markings' ar y lon tu allan i Westy Padarn, mae o am ddod nol atai.
- Bollards newydd ar dir Maes Derlwyn yn dilyn y rhai oedd wedi pydru a chwynion fod ceir yn gyrru dros y gwair (difetha daffodils) a'r arwydd twristiaeth metel wedi i'w ail-osod yma yn dilyn cael i'w daro gan y storm.
- Gwaith wedi cychwyn ar y pwynt gwasanaethu cartrefi modur yn Y Glyn, biniau dros dro tu allan i'r toiledau nes daw y rhai ailgylchu newydd. Dal dim diweddariad ar y peiriannau talu ac arddangos gan Carwyn.
- Cwynion ynglyn ag ymlediad planhigion yn Llyn Padarn gan perchennog Padlo SUP – wedi ymateb i'r sefyllfa bresennol drwy gymorth Carwyn Williams a CNC (croeso i chi dderbyn copi)
- Wedi cyfarfod Meirion sef Clerc CC Llanrug a Cwm er mwyn cael hanes eu priosect 'outdoor gym' a wedi rhannu'r manylion efo'r grwp priosectau yn y CC er mwyn gweld os oes diddordeb.
- Un o bontydd pren Coed Doctor wedi cau am y tro, y Cyngor yn disgwyl derbyn prisiau gan y contractwr i'w drwsio ond bydd unrhyw waith atgyweirio yn ddibynnol ar gyllid.
- Rhybudd 1af gan CG wedi i'w dderbyn ynglyn a gwaharddiadau/cyfyngu aros a mannau parcio ar gyfer Maes Derlwyn a Trem y Chwarel. (Newid hen safle bws Maes Derlwyn i linellau melyn gan fod y safle bws ddim mewn defnydd ar hyn o bryd)
- Wedi bod yn cyfarfod efo Nia PCSO, mae hi'n dal i bwyso fod angen camerau CCTV yn y pentref ond yn deall eu fod yn gostus dros ben. Dal i dderbyn cwynion am arogl Cannabis o gwmpas Dolbadarn ond hefyd mae trigolion lleol yn i'w ysmygu mewn rhai mannau.
- Wedi derbyn cadarnhad (drwy e-bost) gan yr adran Gynllunio fod nad oes modd i Petes Eats droi yn lety digartrefedd o dan y cais sydd ganddo i mewn ar hyn o bryd.
- Wedi llwyddo i gasglu £1,682 i Carl Schulze a'i deulu yn ystod noson y bingo ar y 27/01, diolch i bawb sydd wedi cyfrannu. Siec wedi i'w gyflwyno i Carl a bydd yr arian yn mynd tuag at gadair olwyn newydd neu rhywbeth y maen't eu angen i'r eiddo iddo.
- Ddim yn hapus fod National Grid wedi rhoid 3ydd set o draffic lights ger cylchfan Brynrefail ar gychwyn y mis heb ddweud, er i'w fod o i lawr erbyn yr 8fed mi fuasai 'heads up' wedi bod yn fuddiol i'r trigolion. Felly wedi nodi hyn iddynt.
- Cais Cynllunio Petes Eats – Ymgynghoriad i fod i ddod i ben ar y 07/02 ond dwi'n rhagweld estyniad pellach o fewn 8 wythnos o achos fod y perchennog angen darparu mwy o wybodaeth i'r Cyngor am yr unedau gwyliau o achos y polisi twristiaeth y Cynllun Datblygu Lleol.

- Fi, Emlyn a Nia wedi cyfarfod efo Mark Gaham yn Y Ganolfan i drafod priosect o gael 'Outdoor Gym' yn Llanberis. Rydym am gychwyn drwy lunio holiadur i'w gyflwyno i'r grwpiau Cymunedol i weld os oes diddordeb a mynd o fan hyn.